# RHEOLWR GWASANAETH EIRIOLAETH RHIENI

TGP Cymru yw un o'r brif elusen yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd bregus trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan lawer o arianwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth

**Yn gyfrifol i:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiriolaeth

**Lleoliad:** yn seiliedig o gartref

**Pwrpas y rôl:**
Bydd yr Rheolwr Gwasanaeth Eiriolaeth Rhieni TGP Cymru yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol ar ddatblygu nifer o wasanaethau Eiriolaeth Rhieni, yn unol â'r cytundeb rhwng comisiynwyr a TGP Cymru.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Gweithio'n agos gydag aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau y darperir gwasanaeth yn effeithiol
- Sicrhau cydgysylltiad a datblygiad strategol y gwasanaeth, gan weithio'n agos gyda'r rheolwr llinell i nodi cyfleoedd, datblygu cynlluniau a monitro a gwerthuso meysydd ar gyfer perfformiad ac ansawdd
- Recriwtio, sefydlu, hyfforddi, goruchwylio / gwerthuso a rheoli tîm staff yn unol â pholisïau a gofynion cyfreithiol TGP Cymru gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu ynghyd â chanllawiau a strategaethau corfforaethol cysylltiedig eraill
- Datblygu cynllun gwaith ar gyfer y maes gwasanaeth - gan alluogi asesiad o'r gwasanaeth yn erbyn amcanion
- Monitro ansawdd gwasanaethau yn erbyn dangosyddion a safonau perfformiad y cytunwyd arnynt a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol lle mae'r perfformiad yn is na'r dangosyddion a'r safonau y cytunwyd arnynt
- Rheoli cyllideb y gwasanaeth o ddydd i ddydd a chyfrannu at bennu cyllideb
- Cynnal cysylltiadau cadarnhaol â chomisiynwyr
- Ymchwilio i gwynion ar lefel gwasanaeth a rheoli achos disgyblu a chwyno ar lefel gwasanaeth
- Sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu yn y gwasanaeth yn cael eu trin yn briodol
- Arwain ar feysydd gwaith fel y cytunwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn modd amserol ac effeithiol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru ac yn cael eu hadrodd yn ôl i'r UDRh
- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n ofynnol yn rhesymol gan y

Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau ymarfer allweddol.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth

**Cyfrifoldeb Rheolwr Llinell (o 01.07.26)**

8 Cyfwerth ag amser llawn (12 aelod o staff)

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (o 01.07.26)**

£365,000

**Grade:**

Graddfa 4

**Amodau gweithio:**

37 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros oddi cartref yn achlysurol dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Mae angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd..

**Cymwysterau**

- Cymhwyster rheoli neu barodrwydd i weithio tuag at un
- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Rhoi cyfeiriad clir a darparu amgylchedd cefnogol lle gall aelodau'r tîm ddysgu, tyfu a chymryd cyfrifoldeb
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Rheoli cyllidebau a pherfformiad ariannol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

| |
|---|
| Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y canlynol:<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth â rhieni a/neu blant a phobl ifanc<br>• Eiriolaeth<br>• Systemau a phrosesau Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant)<br>• Rheoli / Arwain Tîm<br>• Datblygu Prosiect / Gwasanaeth<br>• Rheoli adnoddau<br>• Rheoli perfformiad<br>• Diogelu |
| **Arall**<br><br>• Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo mewn eraill<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Trwydded yrru lawn a mynediad at gludiant *(Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr, nad ydynt o ganlyniad i anabledd, yn gallu gyrru.)*<br>• Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol) |